OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 926 (Cy.89)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg o 1 Ebrill 2008 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg ar 1 Ebrill 2008.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 926 (W.89)

# THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Swansea National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for the transfer of staff from Swansea National Health Service Trust to the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust from the 1 April 2008.

This Order also provides for the transfer of all property, rights and liabilities of Swansea National Health Service Trust to be transferred to the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust on 1 April 2008.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 926 (Cy.89)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2008* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 29 o Atodlen 3 iddi, mae Gweinidogion Cymru, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad fel a ragnodwyd o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "y dyddiad trosglwyddo"" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2008;

(**1**) 2006. p.42.

(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. p.43.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 926 (W.89)

# THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Swansea National Health Service Trust (Transfer of staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 March 2008* |
| *Coming into force* | *1 April 2008* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by section 203(9) and (10) and paragraph 29 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) after completion of consultation as prescribed under paragraph 29(4) of Schedule 3 to that Act(**2**), hereby make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1**.—(1) The title of this Order is the Swansea National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008 and it comes into force on 1 April 2008.

(2) In this Order unless the context otherwise requires:

"new trust" ("*ymddiriedolaeth newydd*") means the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust established on 12 March 2008;

(**1**) 2006. c.42.

(**2**) National Health Service Trusts (Consultation on Establishment and Dissolution) Regulations 1996, S.I. 1996/653, which continue to have effect by virtue of paragraph 1(2) of Schedule 2 to the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006. c.43.

ystyr "yr hen ymddiriedolaeth"" ("*the old trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe a sefydlwyd ar 4 Ionawr 1999(**1**);

ystyr "yr ymddiriedolaeth newydd" ( ("*the new trust*") yw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg a sefydlwyd ar 12 Mawrth 2008.

### Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai

**2**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth yn cael ei drosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw'n effeithiol fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogid felly a'r ymddiriedolaeth newydd.

(2) Heb ragfarnu paragraff (1) uchod —

(a) yn rhinwedd yr erthygl hon, bydd yr holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan gontract neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo yn cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod popeth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr hen ymddiriedolaeth neu mewn perthynas â hi o ran y contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, wedi ei wneud, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, gan yr ymddiriedolaeth newydd neu mewn perthynas â hi.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn rhagfarnu yn erbyn unrhyw hawl sydd gan unrhyw gyflogai i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol er niwed i'w amodau gwaith, ond ni fydd hawl o'r fath yn codi dim ond oherwydd y newid mewn cyflogwr y rhoddir effaith iddo gan yr erthygl hon.

### Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau

**3**. Ar y dyddiad trosglwyddo bydd holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r hen ymddiriedolaeth, sydd heb eu crybwyll yn erthygl 2 uchod, yn cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd gan gynnwys heb gyfyngiad—

(a) y ddyletswydd i baratoi cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen ymddiriedolaeth ac i gyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny;

(b) eiddo ymddiriedol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn yr Atodlen.

"old trust" ("*hen ymddiriedolaeth*") means Swansea National Health Service Trust established on 4 January 1999(**1**);

"transfer date" ("*dyddiad trosglwyddo*") means the 1 April 2008.

### Transfer of employees to the transferee

**2**.—(1) Subject to paragraph (3), any person who immediately before the transfer date, was employed by the old trust shall have his or her contract of employment transferred to the new trust on the transfer date and that contract will have effect as if originally made between the person so employed and the new trust.

(2) Without prejudice to paragraph (1) above —

(a) all the rights, powers, duties and liabilities under or in connection with a contract to which that paragraph applies will, by virtue of this article, be transferred to the new trust on the transfer date;

(b) anything done before that date by, or in relation to, the old trust in respect of that contract or that employee, will be deemed from the transfer date to have been done by, or in relation to, the new trust.

(3) Paragraphs (1) and (2) are without prejudice to any right of any employee to terminate his or her contract of employment if a substantial change is made to his or her detriment in his or her working conditions, but no such right arises by reason only of the change in employer effected by this article.

### Transfer of property, rights and liabilities

**3**. On the transfer date all the property, rights and liabilities of the old trust, not referred to in article 2 above, are transferred to the new trust, including without limitation —

(a) the duty to prepare the outstanding accounts of the old trust and to perform all statutory duties relating to those accounts;

(b) the trust property of the old trust listed in the Schedule.

(**1**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (1999) ar 4 Ionawr 1999 gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (1999) (Sefydlu) 1998 (O.S. 1998/3315) a newidiodd ei enw i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe ar 17 Mai 1999 drwy Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (1999) (Newid Enw) 1999 (O.S. 1999/1321).

(**1**) Swansea (1999) National Health Service Trust was established on 4 January 1999 by the Swansea (1999) National Health Service Trust (Establishment) Order 1998 (S.I. 1998/3315) and its name changed to Swansea National Health Service Trust on 17 May 1999 by the Swansea (1999) National Health Service (Change of Name) Order 1999 (S.I. 1999/1321).

**Trosglwyddo swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd**

**4**. Trosglwyddir holl swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd a byddant yn cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

**Transfer of functions of the old trust to the new trust**

**4**. With effect from the transfer date, all the functions of the old trust are transferred to the new trust.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

28 Mawrth 2008

28 March 2008

YR ATODLEN

Erthygl 3(b)

| *Eiddo* | *Deiliadaeth (a rhif teitl pan fo'n gymwys)* |
| --- | --- |
| **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe** | |
| **Ysbyty** | |
| Cefn-coed | Rhydd-ddaliad (WA787048) |
| Clydach | Rhydd-ddaliad (WA788486) |
| Fairwood | Rhydd-ddaliad (WA702267) |
| Y Garn Goch | Rhydd-ddaliad (WA88518) |
| Gelli-nudd | Rhydd-ddaliad (WA772142) |
| Gorseinon | Rhydd-ddaliad (WA753877) |
| Hill House | Rhydd-ddaliad (WA702266) |
| Treforys | Rhydd-ddaliad (WA772157) |
| Singleton | Rhydd-ddaliad (WA702265) |
| Singleton i'r gorllewin o Lôn Sgeti | Rhydd-ddaliad (WA293221) |
| **Canolfannau Iechyd** | |
| Clydach | Rhydd-ddaliad (WA788486) |
| Pen-clawdd | Rhydd-ddaliad (WA787081) |
| **Clinigau** | |
| Bôn-y-maen | Rhydd-ddaliad (WA787062) |
| Clinig Canolog | Rhydd-ddaliad (WA245563) |
| Cwmbwrla | Rhydd-ddaliad (WA787106) |
| Gorseinon | Rhydd-ddaliad (WA788494) |
| Treforys | Rhydd-ddaliad (WA772157) |
| Murton | Rhydd-ddaliad (WA787094) |
| Norton Villa | Lesddaliad (WA870392) |
| Pontarddulais | Rhydd-ddaliad (WA787066) |

SCHEDULE

Article 3(b)

| *Property* | *Tenure (and title number where applicable)* |
| --- | --- |
| **Swansea National Health Service Trust** | |
| **Hospital** | |
| Cefn Coed | Freehold (WA787048) |
| Clydach | Freehold (WA788486) |
| Fairwood | Freehold (WA702267) |
| Garngoch | Freehold (WA88518) |
| Gellinudd | Freehold (WA772142) |
| Gorseinon | Freehold (WA753877) |
| Hill House | Freehold (WA702266) |
| Morriston | Freehold (WA772157) |
| Singleton | Freehold (WA702265) |
| Singleton West of Sketty Lane | Freehold (WA293221) |
| **Health Centres** | |
| Clydach | Freehold (WA788486) |
| Penclawdd | Freehold (WA787081) |
| **Clinics** | |
| Bonymaen | Freehold (WA787062) |
| Central Clinic | Freehold (WA245563) |
| Cwmbwrla | Freehold (WA787106) |
| Gorseinon | Freehold (WA788494) |
| Morriston | Freehold (WA772157) |
| Murton | Freehold (WA787094) |
| Norton Villa | Leasehold (WA870392) |
| Pontardulais | Freehold (WA787066) |

| **Iechyd Meddwl** | | **Mental Health** | |
|---|---|---|---|
| Canolfan y Berllan, Abertawe | Rhydd-ddaliad (WA517503) | Orchard Centre, Swansea | Leasehold (WA517503) |
| Tŷ Einon, Gorseinon | Rhydd-ddaliad (WA438440) | Ty Einon, Gorseinon | Freehold (WA438440) |
| Westfa a Swyddfeydd, Abertawe | Rhydd-ddaliad (WA790049) | Phillips Parade Offices & Wetsfa | Freehold (WA790049) |

| **Amrywiol** | | **Miscellaneous** | |
|---|---|---|---|
| Clos George Morgan plotiau 1-47, Ysbyty Treforys | Rhydd-ddaliad (wedi'i gynnwys yn 'Treforys' uchod) | Clos George Morgan plots 1-47, Morriston Hospital | Freehold (Included in Morriston above) |
| Fforest Industries, Heol Caerfyrddin, Abertawe | Lesddaliad (WA647208) | Fforest Industries, Carmarthen Road, Swansea | Leasehold (WA647208) |
| Strom Team, Heol Walter, Abertawe | Lesddaliad (CYM256849) | Strom Team, Walter Road, Swansea | Leasehold (CYM256849) |
| Canolfan Phoenix, Uned 10, Townhill Abertawe | Lesddaliad | Phoenix Centre, Unit 10, Townhill Swansea | Leasehold |
| Canolfan Arc, Broughton Avenue, Abertawe | Lesddaliad | Arc Centre, Broughton Avenue, Swansea | Leasehold |
| Canolfan Newid, Ffordd Caernarfon, Abertawe | Lesddaliad | Newid Centre, Caernarfon Way, Swansea | Leasehold |
| Courtney Street, Manselton, Abertawe | Lesddaliad (CYM276439) | Courtney Street, Manselton, Swansea | Leasehold (CYM276439) |
| Canolfan Oldway 7fed Llawr, Abertawe | Lesddaliad (CYM245479) | Oldway Centre 7th Floor, Swansea | Leasehold (CYM245479) |
| 695 Heol Llangyfelach, Abertawe | Lesddaliad (CYM256849) | 695 Llangyfelach Road, Swansea | Leasehold (CYM256849) |
| Golchdy Llansamlet | Rhydd-ddaliad (WA54254) | Llansamlet Laundry | Freehold (WA54254) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2008 Rhif 926 (Cy.89)**

**Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU**

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2008 No. 926 (W.89)**

**THE NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES**

The Swansea National Health Service Trust (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W295/04/08 ON